

CYD-BWYLLGOR ARDAL O HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL BRYNIAU CLWYD A DYFFRYN DYFRDWY

Cofnodion cyfarfod o'r Cyd-bwyllgor Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy a gynhaliwyd yn Cynhadledd Fideo, Dydd Gwener, 19 Mawrth 2021 am 10.00 am.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Bobby Feeley a Tony Thomas (Cadeirydd) (Cadeirydd) (Cyngor Sir Ddinbych)

Y Cynghorwyr Carolyn Thomas a Derek Butler (Cyngor Sir y Fflint) a'r Cynghorydd David Kelly (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam)

HEFYD YN BRESENNOL

Steve Gadd (Pennaeth Cyllid ac Eiddo CSDd), Gary Williams (Swyddog Monitro CSDd), Howard Sutcliffe (Swyddog AHNE CSDd), David Shiel (Swyddog Cynorthwyol AHNE CSDd), Karen Weaver (Cydylynydd AHNE CSDd), Paula O'Hanlan (Uwch Swyddog Cyllid CSDd), Huw Rees (Rheolwr Gwasanaethau Cefn Gwlad a Threftadaeth CSDd), Beth Dann (Prifysgol Bangor), Ceri Lloyd (Swyddog CDC AHNE), Steve Price (Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd), Rachel Jones (Arweinydd Tîm AHNE y Gogledd), Rhodri Tomos-Jones (Gwesteiwr) a Sharon Walker (Gweinyddwr Pwyllgorau)

Mike Skuse, Rachel Jones, Andrew Worthington OBE, Helen Mrowiec, Allan Forrest, a Chris Smith

Y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies (CSDd) yn bresennol fel Arsyllwr.

1 CYFLWYNIAD, YMDDIHEURIADAU A DATGANIADAU O GYSYLLTIAD

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Hugh Jones, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ac Alan Price, Swyddog Partneriaeth y Gogledd Ddwyrain, Cyfoeth Naturiol Cymru.

Ni chafodd unrhyw gysylltiad ei ddatgan.

2 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 11.9.20 11 MEDI 2020

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Cyd-bwyllgor Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy a gynhaliwyd 11 Medi 2021. Cytunwyd eu bod yn gyfnod cywir ac nid oedd unrhyw fater yn codi.

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion cyfarfod Cyd-bwyllgor Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy a gynhaliwyd 11 Medi 2020.

3 COFNODION DRAFFT CYFARFOD PARTNERIAETH YR AHNE A GYNHALIWDYD AR 19 CHWEFWROR 2021

Darparwyd y cofnodion drafft Partneriaeth Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy a gynhaliwyd ar 19 Chwefror 2021 er gwybodaeth.

***PENDERFYNWYD** nodi cofnodion drafft Partneriaeth Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy.*

4 DIWEDDARIAD AR GYLLID Y CYDBWYLLGOR

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid ac Eiddo, Steve Gadd, yr adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol).

Mae'r adroddiad yn darparu crynodeb o sefyllfa refeniw derfynol amcanol yr AHNE ar gyfer 2020/21 a fanylir yn Atodiad 1. Mae'r sefyllfa refeniw derfynol yn dangos cyfraniad o £11,705 o'r gronfa wrth gefn. Mae £2,614 o'r swm hwn yn cefnogi'r gyllideb refeniw a'r £9,091 arall yn ariannu aelod o staff dros dro rhan-amser drwy grant Llywodraeth Cymru (cronfeydd wedi'u derbyn).

Gofynnwyd i'r Pennaeth Cyllid ac Eiddo a fu yna lwyddiant yn gwneud cais am grantiau Covid er mwyn parhau i allu cydymffurfio â chanllawiau Covid ar gyfer ymwelwyr i atyniadau twristiaid poblogaidd. Trafodwyd y problemau ynglŷn â phan fydd rheolau'r cyfnod clo eu llacio, ni fyddai capasiti yn y meysydd parcio ar gyfer y nifer o ymwelwyr. Roedd hon yn broblem ar draws y Sir ac roedd angen gweithio gyda'r Adran Priffyrdd a Heddlu Gogledd Cymru.

Cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid ac Eiddo y byddai cyllid Covid ar gael am y chwe mis nesaf ac roedd angen llenwi ffurflen hawlio gwariant misol. Roedd pob Awdurdod Lleol yn cydnabod y byddai hyn yn bwysau wrth symud ymlaen.

***PENDERFYNWYD** - Nodi'r rhagolwg diweddaraf o sefyllfa ariannol derfynol yr AHNE ar gyfer 2020/21 (Atodiad 1) a chynnydd yn erbyn y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb.*

5 DIWEDDARIAD MAES:

(a) Prosiect Parc Piced Wenffrwd a Moel Famau.

Rhoddodd David Shiel, Uwch Swyddog Cefn Gwlad yr AHNE, adroddiad llafar ynglŷn â Phrosiect Parc Piced Wenffrwd a Moel Famau.

Yn ystod y cyfnod clo, penderfynwyd cau Loggerheads, Moel Famau a Maes Llantysilio. Gosodwyd arwyddion ar yr A494 i roi gwybod i ymwelwyr bod y parciau ar gau. Yn sgil yr eira dros y Nadolig, penderfynwyd hefyd i gau'r ffyrdd dynesu er mwyn atal ymwelwyr. I wneud hyn, bu'n rhaid gweithio gyda Chyngor Sir Ddinbych, Cyfoeth Naturiol Cymru a Heddlu Gogledd Cymru. Bu gwaith yn digwydd hefyd gyda'r Tîm Cyfathrebu er mwyn

sicrhau bod pobl yn cael y neges bod y Parciau ar gau, ond parhaodd pobl i geisio ymweld â'r parciau yn ystod y cyfnod yma.

Cafwyd cyllid gan Lywodraeth Cymru a defnyddiwyd rhywfaint o'r arian hwnnw i gynnal adroddiad o lif traffig ar *Forestry Road* sy'n arwain at brif feysydd parcio Moel Famau. Prif argymhelliad oedd cyflwyno cyfyngiadau parcio. Roedd trafodaethau yn mynd rhagddynt ynglŷn â chyflwyno llinellau melyn dwbl neu ffordd glir neu beidio.

Roedd yna hefyd gynnig i ddarparu llefydd parcio ar y stryd wrth nesáu at y giatiau sy'n cael eu cloi dros nos er mwyn i ymwelwyr allu ymweld fin nos.

Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda'r Adran Priffyrdd hefyd i ail ddylunio cynllun y gilfan y tu allan i'r maes parcio.

Mae cyllid wedi cael ei sicrhau i gynyddu capasiti'r meysydd parcio i greu 50-60 o lefydd parcio ychwanegol. Yn ogystal, bydd y peiriannau talu ac arddangos yn cael eu hamnewid gyda pheiriannau sy'n derbyn cardiau a byddai gwaith yn mynd rhagddo i wella'r llwybrau troed.

(b) SMS a Phwysau Ymwelwyr yn ystod Covid.

Arweiniodd Rachel Jones (Arweinydd Tîm y Gogledd AHNE), yr aelodau trwy gyflwyniad.

Fe eglurodd yr Arweinydd Tîm wrth yr aelodau y cymerir gofal wrth ystyried pa anifail fyddai'n cael eu cyflwyno ar safleoedd. Roedd anifeiliaid hefyd yn cael eu symud o amgylch safleoedd ond cyn eu symud i safle, roeddynt yn cael ychydig ddiwrnodau ar y safle er mwyn iddynt gael addasu. Roedd Ymgysylltu â'r Gymuned yn arbennig o bwysig.

(c) Tirlun Darluniadwy i gael ei ohirio tan y cyfarfod nesaf.

(d) Prosiect Rhostir.

Nid oedd Graham Berry, Swyddog Rhostir yn gallu mynychu'r cyfarfod a chyflwynodd David Shiel, Uwch Swyddog Cefn Gwlad yr AHNE, yr adroddiad ar lafar yn ei habsenoldeb.

Roedd y Swyddog Rhostir wedi cael ei phenodi ym mis Tachwedd 2020 ac roedd hi'n gweithio ar brosiect tair blynedd o hyd.

Rhoddodd yr Uwch Swyddog Cefn Gwlad drosolwg o'r Prosiect.

Mynegwyd pryder am faint o rasio ceir sy'n digwydd yng nghefn Mynydd Llandegla gan fod gan rai ceir y potensial i achosi tân. Fe gadarnhawyd y byddai'r Swyddog Rhostir yn edrych at y mater.

PENDERFYNWYD bod Cydbwyllgor Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn nodi'r newyddion diweddaraf a dderbyniwyd.

6 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Cyflwynodd Swyddog AHNE rhaglen gwaith i'r dyfodol cydbwyllgor yr AHNE (dosbarthwyd yn flaenorol).

Cadarnhawyd eu bod yn aros am gyllid gan Gyfoeth Naturiol Cymru ac fe fyddai yna grant o £100,000 gan Lywodraeth Cymru.

Byddai Cynllun Rheoli yr AHNE yn mynd gerbron y Pwyllgor ym mis Mehefin.

Fe nodwyd bod y Fforwm wedi'i ohirio ar hyn o bryd tan fis Medi 2021.

Roedd dyraniad o £225,000 o gyllid Llywodraeth Cymru y flwyddyn nesaf wedi cael ei glustnodi ar gyfer nifer o brosiectau.

Roedd cyllid refeniw ar gyfer newid hinsawdd wedi cael ei ddyrannu a byddai Swyddog Dalgylch a Newid Hinsawdd yn cael ei ph/benodi.

Gofynnwyd bod cyflwyniadau'n cael eu dosbarthu i'r aelodau cyn y cyfarfod a chytunwyd y byddai cyflwyniadau'n cael eu cynnwys gyda'r pecyn Rhaglen.

PENDERFYNWYD bod *Cydbwyllgor Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn nodi'r rhaglen gwaith i'r dyfodol.*

7 DYDDIADAU CYFARFODYDD Y DYFODOL

Dydd Gwener 25 Mehefin 2021
Dydd Gwener 5 Tachwedd 2021
Dydd Gwener 18 Mawrth 2022
Dydd Gwener 24 Mehefin 2022
Dydd Gwener 4 Tachwedd 2022